**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

17 Tachwedd 2016

Annwyl gyfaill


Diolch i chi am gymryd yr amser i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynglŷn â chynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafwyd 36 o ymatebion, a gellir gweld pob un ohonynt ar ein gwefan, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chrynodeb o ganlyniadau'r arolwg gweithlu.

Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion ac wedi cytuno i ddechrau ein hymchwiliad cyffredinol i'r gweithlu drwy ystyried recriwtio meddygol – mae manylion yr ymchwiliad hwn ar gael ar ein gwefan. Dilynir hyn gan nifer o ymchwiliadau eraill dros gyfnod y Pumed Cynulliad a fydd yn archwilio'r amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn helpu i lunio'r gwaith ehangach hwn, ac rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu â chi drwy gydol y broses hon.

Unwaith eto, ar ran aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad a'ch gwahodd i barhau i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565